

## 2017 Rhif 286 (Cy. 78)

### TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

#### Gorchymyn Cefnffordd yr A44 (Llanbadarn Fawr, Ceredigion) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2017

*Gwnaed* 28 Chwefror 2017

*Yn dod i rym* 6 Mawrth 2017

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Llangurig – Aberystwyth (yr A44) (“y gefnffordd”), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o’r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

#### Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw’r Gorchymyn hwn i rym ar 6 Mawrth 2017 a’i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A44 (Llanbadarn Fawr, Ceredigion) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2017.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys ac mewn cysylltiad â’r gwaith sy’n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw’r cyfnod hwnnw sy’n dechrau am 18:30 o’r gloch ar 6 Mawrth 2017 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30(1) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae’r pwerau hyn wedi eu rhoi bellach i Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr “y darn o’r gefnffordd” (“*the length of the trunk road*”) yw’r darn o gefnffordd yr A44 yn Llanbadarn Fawr sy’n ymestyn o bwynt 550 o fetrau i’r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â’r A4120 hyd at bwynt 50 o fetrau i’r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â’r A4120.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

### **Gwaharddiad**

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darn o’r gefnffordd.

### **Cymhwys**

4. Ni fydd gwaharddiad erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

### **Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn**

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a’r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y

28 Chwefror 2017

*Nina Ley*

Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli’r Rhwydwaith  
Llywodraeth Cymru